

Tribiwnlys y Gymraeg

Ymgynghoriad – crynodeb o’r ymatebion

Cyfarwyddiadau Ymarfer 1 a 2

Dyddiad cyhoeddi: **Ionawr 2016**

Cyfarwyddiadau Ymarfer 1 a 2

- Cynulleidfa** Aelodau'r cyhoedd, y sefydliadau a fydd yn destun y set gyntaf o safonau'r Gymraeg, ac unrhyw un arall sydd â diddordeb yn y Cyfarwyddiadau Ymarfer.
- Trosolwg** Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad ar Gyfarwyddiadau Ymarfer 1 a 2 arfaethedig Tribiwnlys y Gymraeg, a gynhaliwyd rhwng 24 Gorffennaf 2015 a 18 Medi 2015.
- Camau i'w cymryd** Dim – er gwybodaeth yn unig.
- Rhagor o wybodaeth** Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:
Huw Williams
Tribiwnlys y Gymraeg
Llawr 1af, Adain y Gorllewin
Tŷ Southgate
Stryd Wood
Caerdydd
CF10 1EW
e-bost: tyg@cymru.gsi.gov.uk
- Copiau ychwanegol** Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn www.llyw.cymru/ymgyngoriadau
- Dogfennau cysylltiedig** Rheolau Tribiwnlys y Gymraeg 2015
Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Cynnwys

Cyflwyniad a throsolwg	2
Ymatebion i'r ymgynghoriad – dadansoddiad	3
Tabl 1: Ymatebion i'r ymgynghoriad ar Gyfarwyddyd Ymarfer 1	5
Tabl 2: Ymatebion i'r ymgynghoriad ar Gyfarwyddyd Ymarfer 2	13

Cyflwyniad a throsolwg

Mae'r ddogfen hon yn grynodedb o'r ymatebion a dderbyniwyd gan Dribiwnlys y Gymraeg i'r ymgynghoriad ar ddau Gyfarwyddyd Ymarfer. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 24 Gorffennaf 2015 a 18 Medi 2015.

Mae'r ymgynghoriad yn ceisio barn ar ddau Gyfarwyddyd Ymarfer drafft. Swyddogaeth y Tribiwnlys yw dyfarnu ar apeliadau a heriau mewn perthynas â phenderfyniadau Comisiynydd y Gymraeg o ran gosod a gorfodi dyletswyddau o dan Safonau'r Gymraeg. Pwrpas y Cyfarwyddiadau Ymarfer yw rhoi cyngor ymarferol ar sut i ddehongli a gweithredu Rheolau Tribiwnlys y Gymraeg 2015 ("y Rheolau"). Pwrpas Cyfarwyddyd Ymarfer 1 yw cyhoeddi ffurflen a fydd, trwy ei defnyddio gan geisydd, yn cynorthwyo'r ceisydd i gydymffurfio â gofynion Rheol 12. Pwrpas Cyfarwyddyd Ymarfer 2 yw rhoi cyngor ymarferol ar sut i ddehongli a gweithredu'r Rheolau mewn modd sy'n unol â Rheol 6 sy'n ymwneud ag ieithoedd y Tribiwnlys.

Gwahoddwyd sylwadau gan ystod o sefydliadau gan gynnwys sefydliadau y mae'r set gyntaf o Safonau'r Gymraeg yn gymwys iddynt (Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol yng Nghymru, Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol yng Nghymru, a Gweinidogion Cymru); ac aelodau'r cyhoedd sydd â diddordeb yn y Tribiwnlys.

Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar wefan Llywodraeth Cymru a rhoddwyd cyhoeddusrwydd iddo drwy gyfrifon cyfryngau cymdeithasol Llywodraeth Cymru.

Y Cyfarwyddiadau Ymarfer drafft y cyfeirir atynt yn yr adroddiad hwn yw'r Cyfarwyddiadau yr ymgynghorwyd arnynt. Maent i'w gweld yn y dogfennau canlynol:

Cyfarwyddyd Ymarfer Rhif 1

<http://gov.wales/docs/dcells/consultation/150723-draft-practice-direction-1.pdf>

Cyfarwyddyd Ymarfer Rhif 2

<http://gov.wales/docs/dcells/consultation/150723-draft-practice-direction-2.pdf>

Ymatebion i'r ymgynghoriad – dadansoddiad

Derbyniwyd cyfanswm o 11 o ymatebion ysgrifenedig i'r ymgynghoriad.

Sefydliadau (4):

- Cyngor Iechyd Cymunedol Aneurin Bevan
- Cyngor Sir y Fflint
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
- Un sefydliad sy'n dymuno aros yn ddienw

Grwpiau Buddiant / Lobïo (4):

- Cymdeithas yr Iaith
- Pwyllgor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd Cymru
- Pwyllgor Sefydlog yr Arglwydd Ganghellor ar yr Iaith Gymraeg
- Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

Unigolion (3):

- Catrin Fflur Huws
- Aelod dienw o'r cyhoedd
- Aelod dienw o Gymdeithas Cyfreithwyr Cymru

Gofynnwyd i'r ymatebwyr ystyried dau gwestiwn yn benodol. Hefyd, rhoddwyd cyfle iddynt wneud sylwadau ar faterion perthynol nad oedd y ddogfen ymgynghori o reidrwydd yn mynd i'r afael â hwy'n benodol. Cafwyd ymatebion ar amrywiaeth o ffurfiau - atebodd 5 corff a 2 unigolyn gan ddefnyddio'r holiadur a roddwyd.

Anfonodd Cymdeithas Cyfreithwyr Cymru sylwadau gan aelod a oedd yn dymuno bod yn ddienw. Ymatebodd tri grŵp buddiant / lobïo ar ffurf llythyr / dogfen. Y 2 gwestiwn penodol oedd:

Cwestiwn 1 – A yw'r Cyfarwyddiadau Ymarfer drafft yn eglur yn eu mynegiant? Os nad ydynt, pa rannau ohonynt sydd ddim, yn eich barn chi, yn eglur?

O'r 7 ymateb a gafwyd yn defnyddio'r holiadur, atebodd 5 "Ydynt" ac atebodd 2 "Nac ydynt" i'r cwestiwn hwn.

Cwestiwn 2 – A yw'r Cyfarwyddiadau Ymarfer drafft yn gyson â [Rheolau Tribiwnlys y Gymraeg?](#) Os nad ydynt, pa rannau ohonynt sydd, yn eich barn chi, heb fod yn gyson â'r Rheolau hynny ac ym mha ffordd?

O'r 7 ymateb a gafwyd yn defnyddio'r holiadur, atebodd 6 "Ydynt", ac ni allai 1 corff ateb y cwestiwn hwn.

Gellir gweld yr holl sylwadau gan yr 11 o ymatebwyr, gan gynnwys eu hymatebion i'r holiadur, yn Nhablau 1 a 2. Hefyd yn y Tablau, rhoddir ymateb Keith Bush CF, Llywydd Tribiwnlys y Gymraeg, i sylwadau'r ymatebwyr. Dyfynnir o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn yr iaith y gwnaed yr ymateb, a chânt eu priodoli i gyrff / unigolion pan fo'r corff neu'r unigolyn dan sylw wedi rhoi ei ganiatâd.

Tabl 1: Ymatebion i'r ymgynghoriad ar Gyfarwyddyd Ymarfer 1

Paragraff	Ymateb/Sylwadau	Sefydliad / Person	Ymateb TyG
3	Y mae peth amwysedd yma gyda'r defnydd o dylid/should. Yn y ddogfen ymgynghorol – a pharagraff 4 ceir argraff mai dyhead sydd ar gyfer defnydd y ffurflen safonol, ond cyfeiria baragraff 3 at dylid/should – sydd yn cyfleu naill ai dyletswydd (rhaid/must) neu obaith (dylsid/ought). Credaf felly fod angen bod yn glir ar beth sydd yn briodol.	Dr Catrin Fflur Huws	Pwrpas y Cyfarwyddyd yw annog ceisyddion i ddefnyddio'r Ffurflen a ddarparwyd. Bydd hynny'n helpu i sicrhau bod yr holl wybodaeth sydd ei angen o dan Reol 12 yn cael ei chynnwys gyda'r cais. Ond nid yw'r Rheolau'n rhagnodi'r defnydd o'r Ffurflen. Credir bod y defnydd o "dylid / should" (geiriau sy'n annog ac yn cynghori) yn briodol, felly.

<p>4</p>	<p>The PD1 makes it clear [para 4] that "it is not a legal requirement, therefore, to use the form below. An applicant may supply the information prescribed under Rule 12 by some other means." It seems harsh that the PD continues [para5] to say that "Should failure by a party to use the form result in hindering the effectiveness of the Tribunal in administering the application, that failure may be considered by the Tribunal as a failure to –</p> <ul style="list-style-type: none"> • help the Tribunal to further the overriding objective (see Rules 3 and 5(1)(c)) • co-operate with the Tribunal generally (see Rule 5(1)(d)) • act in an appropriate and reasonable manner (for the purpose of Rule 55)" <p>How can a choice to supply the requested information by means other than the form be unreasonable? Para 5's threat seems unsuitable.</p>	<p>Pwyllgor Cyfiawnder Gweinyddol a Thriwlysoedd Cymru</p>	<p>Nod y Cyfarwyddyd ymarfer yw annog ceisyddion i ddefnyddio'r ffurflen gan y bydd hynny'n helpu i sicrhau eu bod yn cynnwys yn y cais yr holl wybodaeth y mae Rheol 12 yn ei gwneud yn ofynnol.</p> <p>Nod y cyfeiriad at ganlyniadau posibl peidio â defnyddio'r Ffurflen yw ategu'r neges hon. Ond byddai'r canlyniadau hynny'n deillio, nid o beidio â defnyddio'r ffurflen, ond o beidio â darparu'r wybodaeth angenrheidiol. Diben y ffurflen yw gwneud hyn yn llai tebygol o ddigwydd. Peidio â darparu'r wybodaeth angenrheidiol a, thrwy hynny, fethu â chydymffurfio â'r Rheolau fyddai'n arwain at y canlyniadau, yn hytrach na dim ond y dewis o beidio â defnyddio'r Ffurflen.</p> <p>Derbynnir, felly, na ddylid drysu'r cyfeiriad at y goblygiadau posibl o <i>fethu â chydymffurfio â'r Rheolau</i> gyda'r goblygiadau o <i>beidio â defnyddio'r ffurflen</i>.</p> <p>Mae'r cyfeiriad hwn wedi'i ddileu felly.</p>
----------	---	--	---

5	A ddylid amlinellu beth fyddai oblygiadau canfyddiad bod methiant i helpu neu gydweithredu neu weithredu yn rhesymol? Ni bydd darllenwyr yn debygol o gymryd y bygythiad o ddifrif os nad oes canlyniadau yn codi ohono.	Dr Catrin Fflur Huws	Am y rhesymau a roddwyd uchod, mae'r cyfeiriad at ganlyniadau posibl peidio a defnyddio'r Ffurflen wedi'i hepgor.
5	There are some points which could be clarified. In respect of Practice Direction 1, paragraph 5 details possible consequences of failure to use the prescribed form. However, use of the form is not obligatory, if this provision was proportionate on this basis?	Corff dienw	Am y rhesymau a roddwyd uchod, mae'r cyfeiriad at ganlyniadau posibl peidio a defnyddio'r Ffurflen (sydd, wir, yn gyfeiriad at ganlyniadau posibl methu â chydymffurfio â'r Rheolau) wedi'i hepgor.
Ffurflen: Cwestiwn 1	A yw cyfathrebu dwyieithog yn opsiwn?	Dr Catrin Fflur Huws	Mae geiriad y ffurflen yn dilyn gofynion Rheol 12(1)(g). Ond gweler hefyd y drafodaeth isod.
Ffurflen: Cwestiwn 1	On the annex 'Notice of Application form' question 1 – 'choice of language'. The offer is to "receive Communications from the Tribunal in (a) Welsh or (b) English". It may be useful to also offer organisations the opportunity to receive communications in both Welsh and English for the use of organisations where multiple persons with different language preferences may be involved in the process of sharing of Information on the matter.	Corff dienw	Mae Rheol 12(1)(g) o Reolau'r Tribiwnlys yn ei gwneud yn ofynnol i geisydd nodi'r iaith y mae'r ceisydd (neu gynrychiolydd y ceisydd) yn dymuno derbyn cyfathrebiadau gan y Tribiwnlys ynddi. Mae'r Ffurflen felly'n adlewyrchu gofynion y Rheolau, ac nid yw'r Rheolau'n galluogi ceisydd i ofyn i'r Tribiwnlys gyfathrebu â'r ceisydd (neu gynrychiolydd) yn y ddwy iaith. Yn ymarferol, bydd llawer o'r cyfathrebiadau ffurfiol a gaiff eu hanfon at geisyddion a phartion eraill

			<p>yn ddwyieithog – hysbysiadau am wrandawiadau neu orchmynion ar gyfer cyfarwyddiadau er enghraifft.</p> <p>Ond, bydd hefyd gyfathrebiadau llai ffurfiol ac mae'n briodol ac yn gywir i'r Tribiwnlys fod yn ymwybodol o ddewis iaith partion er mwyn ei barchu.</p> <p>Mater i'r cyrff eu hunain yw cyfathrebiadau mewnol cyrff sy'n geisyddion. A dylent drefnu hynny'n unol ag unrhyw Safonau sy'n ymwneud ag unrhyw gyfathrebiadau o'r fath.</p>
Ffurflen: Cwestiwn 1	Dylid ychwanegu dewis i dderbyn gohebiaeth yn ddwyieithog gan fod rhai unigolion nad ydynt yn gwbl hyderus eu Cymraeg, a ceir sefydliadau lle mae gan rai unigolion alluoedd iaith gwahanol. Dylid ychwanegu dewis i dderbyn cyfathrebiadau mewn iaith arall heblaw am Gymraeg neu'r Saesneg hefyd er mwyn cyrraedd pobl sy'n siarad ieithoedd eraill.	Cymdeithas yr Iaith Gymraeg	<p>Testun y Cyfarwyddyd Ymarfer yw cyfathrebiadau rhwng y Tribiwnlys a cheisyddion. Gall ceisydd fod yn gorff neu'n swyddog sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru neu rywun sydd wedi gwneud cwyn i'r Comisiynydd o fethiant corff neu swyddog i gydymffurfio â Safon. Nid yw'n ymddangos yn afresymol i bersonau felly ddewis derbyn cyfathrebiadau oddi wrth y Tribiwnlys naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg (fel mae Rheol 12(1)(g) o'r Rheolau eisoes yn rhagnodi.</p> <p>Yn ymarferol, bydd llawer o'r cyfathrebiadau ffurfiol a gaiff eu</p>

			hanfon at geisyddion a phartion eraill yn ddwyieithog. Ond os digwydd i'r Tribiwnlys orfod cyfathrebu gyda pharti mewn ffordd llai ffurfiol, priodol bydd i staff y Tribiwnlys wybod, a pharchu, dewis iaith y parti hwnnw.
Ffurflen: Cwestiwn 2	Enw unigolyn ynteu enw mudiad	Dr Catrin Fflur Huws	Enw'r ceisydd. Diwygiwyd y ffurflen er mwyn gwneud hynny'n glir.
Ffurflen: Cwestiwn 2 a 3	Angen gofodau mwy ar gyfer cwestiwn 2 a 3.	Dr Catrin Fflur Huws	Nodwyd. Bydd fformat y ffurflen, fel y bydd yn ymddangos ar wefan y Tribiwnlys, yn sicrhau y bydd digon o ofod ar gael ar gyfer pob ateb.
Ffurflen: Cwestiwn 4, 5 a 6	The Welsh Language Tribunal Rules 2015 Rule 12 (1) (a) provides "if available, that person's telephone number, fax number and email address" is to be provided. The form in the Annex to the consultation on Practice Direction 1 (boxes 4 and 5) does not make clear that an email address and telephone number are only to be given "if available". This is also inconsistent as after fax (box 6) it says, in brackets, "if you have one". I submit that "if you have one" should be given in brackets after telephone number and email address and telephone number in boxes 4 and 5 in the same way as for details about fax numbers for consistency; to better reflect the wording of Rule 12 (1) (a); and to ensure that those without email and telephone access are not inadvertently given the impression that they are unable to comply with Rule 12.	Aelod dienw o Gymdeithas Cyfreithwyr Cymru	Nodwyd. Diwygiwyd y Ffurflen.

Ffurflen: Cwestiwn 6	A oes angen cwestiwn 6a – pa ffurf o gyfathrebu fyddai orau gennych?	Dr Catrin Fflur Huws	Nodwyd. Diwygiwyd y Ffurflen.
Ffurflen: Cwestiwn 7	A yw'r cwestiwn hwn yn cyfeirio at yr ymgeisydd A'R cynrychiolydd ynteu at y cynrychiolydd yn unig?	Dr Catrin Fflur Huws	Y cynrychiolydd. Diwygiwyd y ffurflen er mwyn gwneud hynny'n glir.
Ffurflen: Cwestiwn 10, 11 a 12	Rule 12 (1) (b) makes similar provision in relation to representatives, i.e. telephone number, email address and fax number are to be provided "if available". Again box 12 states that a representative only needs provide a fax number if the representative has one. I submit that boxes 10 and 11 should have the words "if you have one" inserted in brackets after email address and telephone number for the same reasons as given above.	Aelod dienw o Gymdeithas Cyfreithwyr Cymru	Nodwyd. Diwygiwyd y Ffurflen.
Ffurflen: Cwestiwn 14b	Gwall iaith: mewnosod "Dyfarniad gan y Comisiynydd fod methiant wedi bod i gydymffurfio â gofyniad safon" yn lle "Dyfarniad gan y Comisiynydd fod methiant wedi bod i i gydymffurfio â gofyniad safon;"	Cymdeithas yr Iaith Gymraeg	Nodwyd. Cywirwyd y ffurflen.
Ffurflen: Cwestiwn 18	In relation to Box 18, I submit that at the end of the sentence: "But the Tribunal has power to extend that period" the words "if there is good reason" are added in order to reflect the test under Rule 14.	Aelod dienw o Gymdeithas Cyfreithwyr Cymru	Nodwyd. Cywirwyd y ffurflen.
Ffurflen: Cwestiwn 18 a 19	Tybed a yw cwestiwn 18-19 yn creu disgwyliad o allu cyflwyno ceisiadau hwyr? Petawn i'n darllen y canllawiau fel defnyddiwr, byddwn yn dehongli hyn fel disgwyliad y bydd y disgrisiwn yn cael ei ddefnyddio yn arferol – ac felly yn gweithredu yn unol a hynny. Os yw'r defnydd o'r disgrisiwn i ehangu'r cyfnod i fod yn	Dr Catrin Fflur Huws	Nodwyd. Cywirwyd y ffurflen..

	wirioneddol eithriadol, a fyddai well cyflwyno hyn fel nodyn ar gwestiwn 15 i'r perwyl. Dylid nodi na fydd y tribiwnlys yn fel arfer yn derbyn ceisiadau os oes mwy na 28 wedi pasio. Os oes amgylchiadau eithriadol, dylech nodi pa resymau sydd dros ehangu'r cyfnod?		
Ffurflen: Cwestiwn 20	Rwy'n amheus o effaith cwestiynau lle mae ateb disgwylidig; 'oes' ar gyfer cwestiwn 20. Beth yw oblygiadau person yn ateb 'nagoes'? A yw cwestiwn 20 yn creu disgwylid o sefyllfaoedd lle nad oes rhaid cynnwys copi o'r penderfyniad?	Dr Catrin Fflur Huws	Pwrpas y cwestiwn hwn yw atgoffa'r ceisydd o'r angen i atodi copi o'r hysbysiad. Nodwyd yr amwysedd ynglŷn ag oblygiadau peidio â gwneud hynny a diwygiwyd y geiriad.
Ffurflen: Cwestiwn 20	PD1, Box 20 of the Form says "Is a copy of the Commissioner's written notice of the decision to which this application relates appended to this notice? (<i>Without that, the Tribunal will not be able to consider your application.</i>)" This could be clearer. It could mean that "you don't have to attach a copy - the Tribunal can obtain it, but if it doesn't it can't consider your application." An alternative approach would be to make it an instruction: "Please supply a copy of the Commissioner's written notice of the decision to which this application relates." The Committee also asked whether the Tribunal could not simply ask for the decision's reference and then obtain a copy from the Commissioner direct.	Pwyllgor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd Cymru	Derbynnir y gellid gwella geiriad y cwestiwn, sydd â'r pwrpas o atgoffa'r ceisydd fod rhaid atodi'r hysbysiad, ac felly mae'r geiriad wedi'i ddiwygio. Nis ystyrir ei bod yn afresymol bod gofyn i barti sydd am apelio yn erbyn penderfyniad ddarparu copi o'r penderfyniad dan sylw i'r Tribiwnlys. Bydd copi wedi'i anfon at y ceisydd yn electronig (ac eithrio mewn achosion eithriadol). Beth bynnag, mae hyn yn ofyniad yn Rheolau'r Tribiwnlys.
Ffurflen - Llofnod	Rule 12 (3) provides that the notice of application must be signed by the applicant, or by that person's representative, if there is one. However, the form does not make it clear that the form must be signed. Instead it says that a printed form of signature is acceptable if the notice is signed electronically. The wording under	Aelod dienw o Gymdeithas Cyfreithwyr Cymru	Nodwyd. Diwygiwyd y Ffurflen yn unol â hyn.

	<p>the line for signature could be amended to This form must be signed by the applicant, or by your representative, if you have one. A printed signature is acceptable if you are submitting the form to the Tribunal electronically.</p>		
<p>Ffurflen - cyffredinol</p>	<p>The Council notes that it is important that the Practice Directions are clearly expressed to avoid any delays or applications rejected because the process has not been correctly followed. The Notice of Application Form is clear and there is an option to extend the timeframe to appeal against a decision is available. Practice Direction Number 1- it could be made clearer that this can be completed on behalf of an applicant, as some individuals may need support with this process.</p> <p>Ensuring that this form is available in accessible formats will be important as well as ensuring that the process is available and easy to find for individuals/organisations who wish to make an application to the Tribunal.</p>	<p>Cyngor Sir y Fflint</p>	<p>Nodwyd. Diwygiwyd y Ffurflen.</p> <p>Nodwyd. Caiff fformat y ffurflen, fel y bydd yn ymddangos ar wefan y Tribiwnlys, ei ddiwygio i wneud y ffurflen mor hygyrch â phosibl.</p>

Tabl 2: Ymatebion i'r ymgynghoriad ar Gyfarwyddyd Ymarfer 2

Paragraff	Ymateb/Sylwadau	Sefydliad / Person	Ymateb TyG
6	A ddylid amlinellu beth fyddai oblygiadau canfyddiad bod methiant i helpu neu gydweithredu neu weithredu yn rhesymol? Ni bydd darllenwyr yn debygol o gymryd y bygythiad o ddifrif os nad oes canlyniadau yn codi ohono.	Dr Catrin Fflur Huws	Ar ôl ystyried sawl sylw a dderbyniwyd mewn perthynas â'r drafft Cyfarwyddyd Ymarfer hwn (a'r drafft o Gyfarwyddyd Ymarfer 1), derbyniwn y gall y paragraff hwn achosi dryswch ynglŷn â statws y Cyfarwyddyd Ymarfer a pherthynas y statws hwnnw â statws gwahanol y Rheolau. Penderfynwyd ei hepgor, felly,
7	Beth yw polisi'r tribiwnlys ar gyfer cyfathrebiadau nad ydynt yn ymdrin ag achos penodol? A oes angen egluro hynny?	Dr Catrin Fflur Huws	Ni fyddai'n briodol i gynnwys mewn Cyfarwyddyd Ymarfer gyfeiriadau at arferion nad ydynt yn ymwneud a thrafodion y Tribiwnlys.

8	<p>Byddai'r paragraff yn ei ffurf bresennol yn galluogi cyrff, sydd o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r Safonau neu gynllun iaith, i gyflwyno cais yn Saesneg. Byddai hynny'n groes i fwriad Mesur y Gymraeg. Hefyd, gallai olygu bod cyrff yn cael torri Safonau neu eu cynllun iaith wrth wneud cais i'r Tribiwnlys - sefyllfa ryfeddol a fyddai'n codi cwestiynau am gyfreithlondeb a hygrededd y broses.</p> <p>Argymhellwn ychwanegu brawddeg i'r paragraff fel ei fod yn darllen fel a ganlyn felly:</p> <p>"Rhaid cychwyn cais trwy gyflwyno hysbysiad cais ysgrifenedig i'r Tribiwnlys. Gall yr hysbysiad cais fod yn y naill iaith neu'r llall. <i>Fodd bynnag, os yw corff yn ddarostyngedig i Safonau neu gynllun iaith statudol neu wirfoddol, bydd disgwyl i'r cais gael ei gyflwyno yn Gymraeg.</i> "</p>	Cymdeithas yr Iaith Gymraeg	<p>Mae paragraff 4 yn ei gwneud yn glir nad yw'r Cyfarwyddyd Ymarfer yn newid darpariaethau Mesur y Gymraeg mewn unrhyw ffordd. Nid yw'r Cyfarwyddyd Ymarfer yn effeithio, felly, ar unrhyw ddyletswydd sydd ar barti, o dan unrhyw Safon. Ychwanegwyd paragraff newydd i'r Cyfarwyddyd Ymarfer er mwyn gwneud hynny'n gliriach.</p>
9	<p>Yn yr un modd, byddai cymal 9 yn ei ffurf bresennol yn gorfodi'r Tribiwnlys i gyfathrebu â cheisydd sy'n ddarostyngedig i Safonau neu gynllun iaith yn Saesneg. Argymhellwn ychwanegu'r frawddeg i'r paragraff fel ei fod yn darllen fel a ganlyn:</p> <p>"Mae Rheol 12 yn rhagnodi'r wybodaeth y bydd yn rhaid ei chynnwys yn yr hysbysiad hwnnw, gan gynnwys yr iaith y mae'r ceisydd (neu gynrychiolydd y ceisydd) yn dymuno derbyn cyfathrebiadau oddi wrth y Tribiwnlys ynddi. Bydd y Tribiwnlys yn gweithredu'n unol â dewis y ceisydd (neu gynrychiolydd y ceisydd) oni bai fod y ceisydd (neu'r cynrychiolydd) yn hysbysu'r Tribiwnlys o ddymuniad i newid y dewis hwnnw. <i>Fodd bynnag, os yw corff yn ddarostyngedig i Safonau neu gynllun iaith statudol neu wirfoddol, bydd y Tribiwnlys yn cyfathrebu</i></p>	Cymdeithas yr Iaith Gymraeg	Gweler uchod.

	<i>â'r ceisydd (neu gynrychiolydd y ceisydd) yn Gymraeg."</i>		
10	Cymal 10 - dylai'r Tribiwnlys weithredu'n fewnol yn Gymraeg, felly dim ond yn Gymraeg y dylid nodi manylion y ceisiadau.	Cymdeithas yr Iaith Gymraeg	Bydd y Gofrestr yn ddogfen gyhoeddus a fydd yn agored i gael ei darllen gan bawb yng Nghymru (a thu hwnt). Mae'n briodol i'r wybodaeth sydd ynddi fod ar gael yn nwy iaith y Tribiwnlys.
10	Rhestru nid rhestri	Dr Catrin Fflur Huws	Nodwyd gyda diolch.
11	A fyddai newid paragraff 11 yn y fersiwn Saesneg i ddweud "it will be assumed when doing so that the language in which the Commissioner wishes to receive communications will be Welsh" yn fwy eglur a chryno na'r hyn sydd yn ymddangos yn y paragraff ar hyn o bryd?	Dr Catrin Fflur Huws	Diwygiwyd y geiriad.
12	Mae perygl y gallai'r geiriad presennol olygu bod dogfennau Saesneg gan gyrff sy'n ddarostyngedig i Safonau neu gynllun iaith yn cael eu hanfon at y Comisiynydd yn Saesneg. Argymhellwn ddiwygio'r paragraff fel a ganlyn felly: "Bydd y copïau o'r hysbysiad cais ac unrhyw ddogfennau cysylltiedig sy'n cael eu hanfon at y Comisiynydd yn gopïau o'r dogfennau hynny fel y daethant i law'r Tribiwnlys. <i>Fodd bynnag, os yw corff yn ddarostyngedig i Safonau neu gynllun iaith statudol neu wirfoddol, bydd y Tribiwnlys yn gofyn i'r corff ddarparu dogfennau yn Gymraeg (oni bai bod darparu copïau gwreiddiol y dogfennau yn unig yn hanfodol er mwyn</i>	Cymdeithas yr Iaith Gymraeg	Gweler uchod.

	<i>profi ffeithiau'r achos).</i> "		
13, 14 a 15	Cymalau 13, 14 a 15 - Dylid ychwanegu brawddeg er mwyn sicrhau mai'r Gymraeg yw'r iaith ddiodyn sy'n cael ei defnyddio wrth gyfathrebu â chyrrff sydd â dyletswydd i gyfathrebu ag eraill yn Gymraeg. <i>"Fodd bynnag, yn Gymraeg y bydd cyrrff sy'n ddarostyngedig i Safonau neu gynllun iaith statudol neu wirfoddol yn derbyn gohebiaeth oddi wrth y Tribiwnlys."</i>	Cymdeithas yr Iaith Gymraeg	Gweler uchod. Dyletswydd partïon bydd cydymffurfio, mewn perthynas â thrafodion y Tribiwnlys, â gofynion Safonau perthnasol.
15	Should "comply" be substituted for "conform"?	Pwyllgor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd Cymru	Cytunwyd.
16	Eto mae perygl y gallai'r geiriad presennol olygu bod dogfennau Saesneg gan gyrff sy'n ddarostyngedig i Safonau neu gynllun iaith yn cael eu darparu yn Saesneg. Felly dylid ychwanegu'r frawddeg ganlynol: <i>"Fodd bynnag, os yw corff yn ddarostyngedig i Safonau neu gynllun iaith statudol neu wirfoddol, bydd y Tribiwnlys yn gofyn i'r corff ddarparu'r holl ddogfennau hyn yn Gymraeg (oni bai bod darparu copïau gwreiddiol y dogfennau yn unig yn hanfodol er mwyn profi ffeithiau'r achos).</i> "	Cymdeithas yr Iaith Gymraeg	Gweler uchod.
17	Mae perygl y gallai'r geiriad presennol golygu bod dogfennau Saesneg gan gyrff sy'n ddarostyngedig i Safonau neu gynllun iaith yn cael eu hanfon at bartïon eraill yn Saesneg. Argymhellwn ddiwygio'r paragraff fel a ganlyn felly:	Cymdeithas yr Iaith Gymraeg	Gweler uchod.

	<p>“Pan fydd Ysgrifennydd y Tribiwnlys yn danfon copïau o'r dogfennau hynny at bartïon eraill (er enghraifft o dan Reol 22) byddant (yn ddarostyngedig i'r paragraff nesaf) yn gopïau o'r dogfennau hynny fel y daethant i law'r Tribiwnlys. <i>Fodd bynnag, os yw corff yn ddarostyngedig i Safonau neu gynllun iaith statudol neu wirfoddol, bydd y Tribiwnlys yn gofyn i'r corff ddarparu'r holl ddogfennau hyn yn Gymraeg (oni bai bod darparu copïau gwreiddiol y dogfennau yn unig yn hanfodol er mwyn profi ffeithiau'r achos).</i>“</p>		
18	<p>Paragraph 18 raises access to justice issues. Parties are expected to make whatever provisions are necessary for them to be able to deal with documents in either language. It then goes on to say it may be necessary for a party to take "special steps" and apply for directions. It seems wrong, in principle that an appellant has to take special steps to get documents in the language of their choosing particularly as they will previously have had to specify to the Tribunal, when giving notice of application, of their preferred language when dealing with the Tribunal.</p>	<p>Aelod dienw o Gymdeithas Cyfreithwyr Cymru</p>	<p>Derbynnir nad yw'r paragraff mor glir ag y dylai fod ac felly mae'r geiriad wedi'i ddiwygio. Mae'r egwyddor sylfaenol y mae'n ceisio ei hegluro fel a ganlyn: mae hawl gan bartïon dderbyn cyfathrebiadau gan y Tribiwnlys yn eu dewis iaith (gan gynnwys dogfennau ffurfiol yn ddwyieithog pan fo hynny'n gyfleus), ond nid cyfrifoldeb y Tribiwnlys fydd cyfieithu dogfennau eraill yn awtomatig, hy. dogfennau gan barti arall yn yr achos. Gellir yn rhesymol ddisgwyl i gyrff a swyddogion sy'n arfer swyddogaethau cyhoeddus yng Nghymru allu wneud eu trefniadau eu hunain i ddelio â deunydd o'r fath boed y rheiny yn Gymraeg neu'n Saesneg. Fodd bynnag, gall amgylchiadau achos penodol, neu amgylchiadau barti penodol, alw ar y</p>

			Tribiwnlys i ddarparu cyfieithiad o ddogfen neu nifer o ddogfennau. Mae'r ffurflen ddiwygiedig ar baragraff 18 yn gwneud hyn yn eglur. Bydd y Tribiwnlys yn penderfynu pa drefniadau sydd eu hangen ar gyfer cyfieithu dogfennau ymhob achos, yn dilyn ymgynghori gyda'r partïon.
19	Credwn y dylid newid y rheol fel a ganlyn: <i>"Cynhelir gwrandawriadau'r Tribiwnlys yn Gymraeg, ond gall tystion gyfrannu ar lafar at wrandawriad (partïon, cynrychiolwyr neu dystion) mewn iaith heblaw am y Gymraeg o wneud cais o flaen llaw. Er mwyn sicrhau hynny, bydd y Tribiwnlys yn darparu cyfieithu ar y pryd effeithiol o iaith arall i'r Gymraeg ac o'r Gymraeg i'r iaith arall ar gais."</i>	Cymdeithas yr Iaith Gymraeg	Bydd cyfieithu ar y pryd yn cael ei ddarparu ar gyfer pob gwrandawriad heb orfod gwneud cais. A gweler y diwygiad i baragraff 20.
19 a 20	In respect of PD 2, paragraph 20 has the presumption that English will not be translated into Welsh. But if a witness who wishes to give evidence in Welsh is questioned in English, the questions will be translated into Welsh. There does not appear to be a provision the contrary but is this presumed by the provisions of paragraph 19 in that it states that instantaneous translation will be provided for every hearing. On this basis, is that in respect of Welsh to English only?	Corff dienw	Mae hyn bellach wedi'i egluro drwy'r paragraff 20 diwygiedig.
20	This does not seem to put Welsh on an equal footing with English when it comes to hearings as para. 20 states that which is said in English at a hearing will not normally be translated into Welsh.	Aelod dienw o Gymdeithas Cyfreithwyr Cymru	Derbyniwyd. Diwygiwyd paragraff 20.

20	<p>The Committee suggests that in PD2, para 20 the text "Any party or representative who intends to question in English a witness who appears (from the language of that witness's written statement) to be giving his or her evidence in Welsh" should be changed to read "Any party or representative who intends to question in English a witness who appears (from the language of that witness's written statement) to wish to give his or her evidence in Welsh..." as the Welsh version does.</p>	<p>Pwyllgor Cyfiawnder Gweinyddol a Thriwlysoedd Cymru</p>	<p>Diwygiwyd geiriad paragraff 20.</p>
20	<p>Mae'n siomedig nodi nad ydy'r cymal hwn wedi rhoi ystyriaeth i'r dystiolaeth a roddwyd yn y sesiwn gynghori yn Wrecsam am gyfieithu ar y pryd y ddwy ffordd, fel sy'n arfer cyffredin ar gyfandir Ewrop. Credwn fod hawl gan bobl Cymru i dderbyn holl wybodaeth y Tribiwnlys yn Gymraeg boed hynny'n dystiolaeth ar lafar neu'n ysgrifenedig.</p> <p>Ymhellach, mae'r cymal hwn yn derbyn mai'r Saesneg yw iaith gyffredin Cymru yn hytrach na'r Gymraeg. Dyna'r union egwyddor y dylai Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, "peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg", ei atal rhag digwydd.</p> <p>Credwn y dylid ail-lunio'r cymal yn unol ag egwyddorion Mesur y Gymraeg gyda geiriad fel a ganlyn felly:</p> <p><i>"Gan mai yn Gymraeg y cynhelir gwrandawiaidau'r Tribiwnlys, ni fydd yr hyn sy'n cael ei ddweud yn Gymraeg mewn gwrandawiad yn cael ei gyfieithu, fel arfer, i'r Saesneg. Ond os bydd tyst sydd am roi tystiolaeth yn Saesneg yn cael ei holi gan rywun sy'n ddefnyddio'r Gymraeg, bydd y cwestiynau'n cael eu cyfieithu i'r Saesneg. Ni chaiff parti neu gynrychiolydd holi yn Saesneg dyst sy'n ymddangos (yn ôl iaith</i></p>	<p>Cymdeithas yr Iaith Gymraeg</p>	<p>Derbyniwyd. Diwygiwyd geiriad paragraff 20.</p>

	<i>datganiad ysgrifenedig y tyst hwnnw) ei fod am roi ei dystiolaeth yn Gymraeg. O dan amgylchiadau eithriadol lle nad oes modd i barti drefnu i holi tyst yn Gymraeg, bydd y cwestiynau'n cael eu cyfieithu i'r Gymraeg."</i>		
21	Dylid newid y cymal fel a ganlyn gan y dylai'r Tribiwnlys fod yn gweithredu'n Gymraeg yn unig, ond gan ddarparu gwybodaeth yn Saesneg ar gais. <i>"Bydd y ddogfen sydd, yn unol â Rheol 47, yn cofnodi penderfyniad y Tribiwnlys, ac unrhyw atodiad sy'n cofnodi'r rhesymau dros y penderfyniad,</i>	Cymdeithas yr Iaith Gymraeg	Bydd y Tribiwnlys yn gweithredu'n ddwyieithog.
Cyffredinol	A ddylid nodi yn rhywle bod cyfathrebiadau yn cynnwys cyfathrebiadau ysgrifenedig a chyfathrebiadau ar lafar.	Dr Catrin Fflur Huws	Derbyniwyd. Diwygiwyd pennawd y rhan o'r Cyfarwyddyd sy'n ymwneud â chyfathrebiadau.
Cyffredinol	Roedd y Pwyllgor o'r farn bod y cyfarwyddiadau fel a ddrafftwyd yn gynhwysfawr ac yn dangos ôl gwaith a meddwl. Roedd y Pwyllgor yn falch o weld o fewn Cyfarwyddyd Ymarfer 2 y gallai person sydd wedi dymuno cyflwyno dystiolaeth yn Gymraeg ond yn cael ei gwestiynu yn Saesneg, gael y dewis o gael y cwestiynau Saesneg wedi eu trosi i'r Gymraeg. Mae hyn yn dilyn y cynsail pwysig a osodwyd yn hyn o beth gan y llysoedd. Unig sylw'r Pwyllgor oedd a ddylai'r Cyfarwyddiadau fanylu mwy o ran safon y cyfieithu h.y trwy fynnu mai aelodau categori Cyfieithu ar y Pryd y llysoedd fyddai'n cael eu cyflogi?	Pwyllgor Sefydlog yr Arglwydd Ganghellor ar yr Iaith Gymraeg	Nodwyd. Bydd y sylw yn cael ei gymryd i ystyriaeth wrth wneud trefniadau ar gyfer darparu cyfieithu ar y pryd.
Cyffredinol	Members of Aneurin Bevan Community Health Council stated that the draft Practice Directions were not clear	Cyngor Iechyd Cymunedol	Heb unrhyw enghreifftiau penodol o'r hyn y dywedir ei fod yn aneglur nid

	and they found the document difficult to understand.	Aneurin Bevan	yw'n bosib ymateb yn ystyrlon i'r sylwad hwn. Nid oes unrhyw ymateb arall i'r ymgynghoriad wedi awgrymu bod diffyg eglurder cyffredinol yn perthyn i'r Cyfarwyddyd Ymarfer drafft.
--	--	---------------	--